**Technegol, ymarferol, yn gyson arloesol**

Technical, practical and always innovative

Arloesi Bwyd **Cymru**

Food Innovation **Wales**

# Arolwg Bwyd a Diod **Cymru** 2015



# Cynnwys


| | | |
|---|---|---|
| | **Byrfoddau** | 04 |
| | **Crynodeb Gweithredol** | 05 |
| **1.** | **Cyflwyniad** | 10 |
| | 1.1. Cefndir | 11 |
| **2.** | **Methodoleg** | 12 |
| | 2.1. Cynllunio a Datblygu'r Astudiaeth Ymchwil | 12 |
| | 2.2. Protocol Casglu Data | 12 |
| | 2.3. Maint Sampl | 13 |
| | 2.4. Dadansoddi'r Data | 13 |
| **3.** | **Y Prif Ganfyddiadau** | 15 |
| | 3.1. Gwybodaeth am y Cwmnïau | 15 |
| | 3.1.1. Categoreiddio Cynnyrch | 15 |
| | 3.1.2. Ardystio | 16 |
| | 3.1.3. Cyfathrebu | 17 |
| | 3.2. Gwybodaeth Fasnachu | 19 |
| | 3.2.1. Trosiant | 19 |
| | 3.2.2. Niferoedd Cyflogeion | 20 |
| | 3.2.3. Llwybr Cyflenwi | 21 |
| | 3.2.4. Cyflenwi'r Sector Cyhoeddus | 22 |
| | 3.2.5. Logisteg | 23 |
| | 3.2.6. Perchenogaeth | 23 |
| | 3.2.7. Allforio | 24 |
| | 3.3. Perfformiad Gweithredol | 27 |
| | 3.3.1. Cyrchu Deunydd Crai | 27 |
| | 3.3.2. Gallu | 28 |
| | 3.3.3. Nifer y Cynhyrchion | 29 |
| | 3.3.4. Costiadau | 29 |
| | 3.3.5. Datblygu Cynnyrch Newydd | 30 |
| | 3.3.6. Ail-frandio | 31 |
| **4.** | **Cyfeiriadau** | 32 |


CANOLFAN DIWYDIANT BWYD ZERO2FIVE FOOD INDUSTRY CENTRE
Arloesi Bwyd **Cymru** Food Innovation **Wales**
Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd
Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Byrfoddau

| | |
|---|---|
| BBaCh | Busnesau Bach a Chanolig |
| BRC | Consortiwm Manwerthu Prydain |
| FDF | Y Ffederasiwn Bwyd a Diod |
| FIC | Canolfan y Diwydiant Bwyd |
| FIW | Arloesi Bwyd Cymru |
| IFS | Safonau Nodedig Rhyngwladol |
| ISO | Y Sefydliad Safoni Rhyngwladol |
| OFF | Y Ffederasiwn Bwyd Organig |
| PDO | Enw Tarddiad Gwarchodedig |
| PGI | Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig |
| SALSA | Cymeradwyaeth Cyflenwyr Diogel a Lleol |
| STS | Gwasanaethau Hyfforddiant Cymorth |



# Crynodeb Gweithredol

Er mwyn casglu'r data amlycaf am y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru, cynhaliwyd arolwg gan y Ganolfan y Diwydiant Bwyd ZERO2FIVE gyda'r nod o gasglu gwybodaeth sylfaenol gywir er mwyn meincnodi cyflwr strwythurol a gweithredol y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.

Wedi'r astudiaeth beilot gychwynnol, roedd yr arolwg yn cynnwys dau gyfnod casglu data. Yn ystod y cyfnod cyntaf, casglwyd gwybodaeth sylfaenol am y cwmnïau ac, yn yr ail gyfnod, y nod oedd cael data mwy penodol am bob cwmni gan gynnwys manylion trosiant, nifer y cyflogeion, statws logistaidd, arloesedd a gweithgarwch mewnforio/allforio. Gan ddefnyddio cronfa ddata o 779 o brosesyddion a gweithgynhyrchwyr bwyd a diod, llwyddwyd i gael cyfanswm o 174 o ymatebion yn y cyfnod cyntaf, a oedd yn gywerth â 22 % o gyfradd ymateb, ac yn yr ail gyfnod llwyddwyd i gael cyfanswm o 108 o ymatebion, a oedd yn gywerth â 14 % o gyfradd ymateb.

- Canfuwyd bod 98 % o'r holl fusnesau yn Ficrofusnesau (77 %) neu'n BBaCh (21 %).
- Nodwyd mai Pobi (24 %), Cynnyrch Llaeth (20 %) a Chig Coch Amrwd (19 %) oedd tri chategori cynnyrch allweddol y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru.
- Nodwyd mai manwerthwyr llai o faint (77 %) oedd y llwybr cyflenwi mwyaf cyffredin. Roedd tua hanner yn cyflenwi naill ai cyfanwerthu (49 %) neu wasanaethau bwyd (50 %). Manwerthwyr mawr a gyflenwyd y lleiaf, a dim ond 20 % o fusnesau bwyd a diod yn cyflenwi'r manwerthwyr hyn.
- Dywedodd bron dau o bob tri o'r busnesau (63 %) nad oeddent yn cyflenwi'r sector cyhoeddus. O'r rheini a oedd yn cyflenwi'r sector cyhoeddus, roedd 37 % yn gwneud hynny drwy drydydd parti.
- Dywedodd dau o bob tri ymatebwr (64 %) yr hoffai eu busnes gyflenwi'r sector cyhoeddus yn y dyfodol ond crybwyllodd y rhan fwyaf o ymatebwyr bris (47 %) a diffyg gwybodaeth (27 %) yn eu rhwystro rhag gwneud hynny.
- Roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr (73 %) heb allforio cynhyrchion y tu allan i'r DU. O'r rheini a oedd yn allforio, roedd y mwyafrif (89 %) yn allforio eu cynhyrchion i Ewrop.







Roedd yr arolwg yn ceisio nodi'r categorïau cynnyrch a oedd yn sbardunau allweddol i'r economi yng Nghymru.

- Dywedodd mwyafrif y busnesau yr hoffent allforio i Ewrop (73 % ), Asia (53 % ) neu Ogledd America (47 % ). Dywedodd 38 % pellach yr hoffent allforio i Ynysoedd y De, 29 % i America Ladin, 11 % i Affrica..
- Roedd dros hanner yr ymatebwyr (54 % ) yn cyrchu eu deunyddiau crai y tu allan i'r DU. Roedd 83 % yn cyrchu eu deunyddiau crai o Ewrop a 27 % yn cyrchu eu deunyddiau crai o Asia.
- Pennwyd nad oedd dros hanner (61 % ) yr ymatebwyr wedi cael unrhyw ardystiad.
- Credai mwyafrif y busnesau (78 % ) nad oeddent yn gweithredu hyd eithaf eu gallu ac roedd un o bob tri (33 % ) o'r ymatebwyr yn credu eu bod yn gweithredu rhwng 51 a 75 % o'u gallu posibl.
- Dywedodd dau o bob tri ymatebwr (62 % ) fod ganddynt hyd at 25 o gynhyrchion ar y farchnadfa.
- Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (94 % ) eu bod wedi lansio 0-10 o gynhyrchion yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.
- Er bod 53 % wedi dweud bod ganddynt 1-5 o gynhyrchion ar y gweill ar hyn o bryd, dywedodd dros chwarter (28 % ) nad oedd ganddynt unrhyw gynhyrchion ar y gweill.
- Dywedodd dros dri chwarter o'r ymatebwyr (77 % ) fod gan y busnes gostiadau i'w cynhyrchion, ond nid oedd costiadau gan 12 % ohonynt ac roedd 10 % arall yn ansicr.
- Dywedodd 28 % nad oeddent wedi adnewyddu eu costiadau o fewn y 12 mis diwethaf.
- Dywedodd un o bob tri ymatebwr (35 % ) ei fod wedi ail-frandio yn ystod y tair blynedd ddiwethaf a soniodd 6 % o'r ymatebwyr am newid perchenogaeth yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.
- Roedd tua hanner yr ymatebwyr (47 % ) yn defnyddio cludwr contract i ddosbarthu eu cynnyrch a 26 % yn defnyddio eu cludiant eu hunain a 27 % yn defnyddio'r ddau ddull dosbarthu.



# DIWYDIANT BWYD A DIOD CYMRU

**£5.2BILIWN**
**O DROSIANT**

YN SECTOR BWYD A FFERMIO CYMRU[1]

**78,500**
**O BOBL**
**WEDI'U CYFLOGI**

YN NIWYDIANT BWYD A FFERMIO CYMRU

**37%**

YN CYFLENWI'R SECTOR CYHOEDDUS DRWY DRYDYDD PARTI



**£7BILIWN**
**O DARGED TWF**
**I'R DIWYDIANT**

SECTORAU BLAENORIAETH ERBYN 2020[1]

**98%**

O UNEDAU BUSNES GWEITHGYNHYRCHU BWYD A DIOD

**Micro neu BBaCh**

ROEDD

**28%**

O'R BUSNESAU HEB UNRHYW GYNHYRCHION AR Y GWEILL

[1] *Llywodraeth Cymru. (2014). Tuag at Dwf Cynaliadwy: Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020.*

## CLUDO AC ALLFORIO

**47%**
YN DEFNYDDIO CLUDWR CONTRACT I DDOSBARTHU

**26%**
YN DEFNYDDIO EU CLUDIANT EU HUNAIN

**27%**
YN ALLFORIO Y TU ALLAN I'R
**DU**

O'R RHEINI SY'N ALLFORIO,
**89%**
YN ALLFORIO YN
**EWROP**

ALLFORIO YN Y DYFODOL I
**ASIA, GOGLEDD AMERICA, YNYSOEDD Y DE, AMERICA LADIN, AFFRICA A'R CARIBÎ**

## ARLOESI A SGILIAU

**94%**
WEDI LANSIO HYD AT
**10 O GYNHYRCHION**
Y LLYNEDD

**53%**
AR HYN O BRYD Â
**1-5 O GYNHYRCHION**
YN DESTUN YMCHWIL A DATBLYGU

**64%**
A HOFFAI GYFLENWI I'R SECTOR CYHOEDDUS OND 27% YN DWEUD NAD OEDD GANDDYNT YR WYBODAETH

# 1. Cyflwyniad

Cynhaliwyd yr adolygiad hwn o'r sector prosesu bwyd a diod i roi meincnod ffeithiol i ganolfannau bwyd Arloesi Bwyd Cymru (FIW) o strwythur a gweithrediadau'r cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru. Prin yw'r data am weithgarwch gweithredol yn y sector prosesu bwyd a diod ac un o brif nodau'r ymchwil hwn oedd nodi meysydd mewn gweithrediadau prosesu bwyd a diod y gellid eu datblygu i wella elw gweithredol a chynorthwyo Llywodraeth Cymru i fodloni targedau twf strategol ar gyfer prosesyddion bwyd a diod.

Mae'r sector bwyd a diod ymhlith y naw sector allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru yn faes pwysig ar gyfer twf a'r economi. Gosododd y llywodraeth darged i'r sector bwyd a diod, sef tyfu trosiant 30 % erbyn 2020 (Llywodraeth Cymru, 2014). Oherwydd yr amrywio mewn dulliau prosesu ar gyfer gwahanol gategorïau o fwyd, ynghyd â chymhlethdod a natur fyd-eang ein cadwyn fwyd heddiw, rhaid i unrhyw ymyriadau i wella perfformiad gweithredol ymgorffori gweithrediadau prosesu bwyd ond rhaid hefyd iddynt gwmpasu'r wybodaeth dechnegol sy'n ofynnol i leihau posibilrwydd digwyddiadau diogelwch bwyd.

Nod yr arolwg bwyd oedd pennu cyflwr cyfredol y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys maint busnesau ar sail niferoedd y cyflogeion a'r trosiant blynyddol, statws logistaidd busnesau, gweithgarwch allforio, arloesi ac uchelgeisiau at y dyfodol. Defnyddir yr wybodaeth a geir i fonitro perfformiad gweithredu'r busnesau bwyd a diod yng Nghymru, a fydd yn fodd o fesur twf a gostyngiad ar draws is-sectorau, cynorthwyo ymchwil a hyfforddiant uniongyrchol mewn meysydd perthnasol yn ogystal â hyrwyddo'r diwydiant bwyd a diod yng Nghymru ac yn fyd-eang. Bydd y data a gasglir hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu cyfeiriadur i'r sector. Defnyddir y cyfeiriadur i hybu ymwybyddiaeth am gwmnïau bwyd a diod Cymru i gynulleidfa ryngwladol (cafodd 295 o gwmnïau eu cynnwys yng nghyfeiriadur 2015).

Mae tair adran i'r adroddiad. Yn yr adran gyntaf, cyflwynir trosolwg o strwythur y sector a'r ffordd y mae'n rhyngweithio â'i ddefnyddwyr. Yn yr adrannau dilynol, dadansoddir proffiliau masnachu gweithgynhyrchwyr bwyd a diod ac, yn olaf, ceir data penodol mewn perthynas â chynhyrchion, prosesau a rheolaethau gweithredol.





## 1.1. Cefndir

Sector gweithgynhyrchu bwyd a diod Cymru yw un o'r diwydiannau mwyaf yng Nghymru o hyd, gan gynhyrchu tua £5.2 biliwn o refeniw'r flwyddyn a chyflogi dros 46,700 o bobl (Llywodraeth Cymru, 2014). Mae gan Gymru lawer o briodoleddau, a all helpu i ddatblygu diwydiant bwyd a diod mwy llwyddiannus a chynaliadwy, o arferion ffermio a deunyddiau crai o ansawdd uchel i gymorth technegol o'r radd flaenaf.

Er mwyn cynorthwyo twf y diwydiant yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi rhyddhau cynllun gweithredu i'r diwydiant bwyd a diod, sef 'Tuag at Dwf Cynaliadwy'. Amcan allweddol y cynllun gweithredu hwn yw cynyddu gwerthiannau yn y sector bwyd a diod 30 % (i £7 biliwn) erbyn y flwyddyn 2020 (Llywodraeth Cymru, 2014). Nod y cynllun gweithredu yw rhoi strategaethau ar waith ar draws pum maes allweddol er mwyn cyrraedd y nod hwn.

**Pum maes allweddol:**

- Datblygu'r Farchnad
- Diwylliant Bwyd
- Cynaliadwyedd a Lles
- Effeithlonrwydd y Gadwyn Gyflenwi
- Integreiddio

Mae gan y marchnadoedd allforio a chartref y potensial i dyfu, a gellir sicrhau'r twf hwnnw drwy wella'r cymorth masnachu a'r wybodaeth farchnad sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae mwyafrif (98 %) busnesau bwyd a diod Cymru yn Fusnesau Bach a Chanolig (BBaCh*) ac yn ficrofusnesau (y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014). Mae BBaCh yn holl bwysig i hunaniaeth Bwyd a Diod Cymru. Drwy wella'r wybodaeth sylfaenol gyfredol am y sector, cynorthwyir FIW i ddatblygu mecanweithiau cymorth i gyrraedd nodau'r llywodraeth.

Mae FIW hefyd yn ceisio cefnogi ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau newydd a gwella systemau rheoli gwastraff drwy fuddsoddiad wedi'i dargedu. Drwy wella systemau rheoli gwastraff, bwriad FIW yw lleihau effaith gwastraff bwyd a datblygu cadwyni cyflenwi a chynhyrchu sy'n fwy effeithlon yn economaidd.

** Yn ôl y Comisiwn Ewropeaidd, busnesau bach a chanolig (BBaCh) yw busnesau sy'n cyflogi llai na 250 o bobl ac sydd â throsiant blynyddol heb fod yn fwy nag EWR 50 miliwn (y Comisiwn Ewropeaidd, 2014).*

# 2. Methodoleg

## 2.1. Cynllunio a Datblygu'r Astudiaeth Ymchwil

Cynlluniwyd y cwestiynau'n benodol i ddirnad cyflwr y diwydiant a helpu i nodi sectorau lle mae cyfleoedd am dwf a datblygiad. Gofynnwyd am wybodaeth y cwmnïau i gadarnhau cyswllt uniongyrchol, fel y gellid cysylltu â'r cwmni pe byddai cyfle busnes yn codi.

Cafodd y cwmnïau eu grwpio yn ôl categori cynnyrch BRC er mwyn i FIW a Llywodraeth Cymru dargedu cwmnïau ar gyfer digwyddiadau a hyfforddiant yn y dyfodol fel cynadleddau cynnyrch llaeth neu weithdai pobi. I bennu natur pob cwmni, gofynnwyd i bob busnes gadarnhau prif ddiben ei fusnes (e.e. cyfanwerthwr/gweithgynhyrchwr), ei statws ardystio a'r sianeli a gyflenwir ganddo. Drwy bennu trosiant blynyddol a niferoedd cyflogeion pob busnes dros y pum mlynedd ddiwethaf, mae'n bosibl dangos maint y cwmni, yn seiliedig ar ddiffiniadau bandiau maint y Comisiwn Ewropeaidd, yn ogystal â chyfanswm twf neu ostyngiad y diwydiant i gyfrannu at dargedau'r llywodraeth.

Er mwyn gwerthuso arloesedd cynhyrchion, gofynnwyd cwestiynau am nifer y cynhyrchion presennol a nifer y cynhyrchion sydd ar y gweill, gyda'r bwriad o amlygu twf mewn cynhyrchion newydd ac uchelgeisiau'r cwmni.

Yn olaf, gwerthuswyd gweithgarwch allforio, mewnfuddsoddi a gallu i helpu FIW a Llywodraeth Cymru i nodi rhwystrau a mynd i'r afael â hwy a chefnogi cyfleoedd am dwf.

## 2.2. Protocol Casglu Data

Mae'r arolwg yn seiliedig ar raglen ymchwil fawr a gynhaliwyd gan y canolfannau bwyd ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd a Choleg Menai, Grŵp Llandrillo Menai. Dosbarthwyd llythyr gwybodaeth i safleoedd prosesu bwyd a diod i hybu ymwybyddiaeth, gyda'r bwriad o gael cynifer o ymatebion â phosibl. Cysylltodd y canolfannau â 779 o gwmnïau bwyd a diod yn rhan o arolwg gweithgynhyrchu bwyd a diod a datblygwyd dull dau gyfnod o gasglu data. Er mwyn cymell ac annog cwmnïau i gymryd rhan, rhoddwyd gwybod i bob busnes y byddai'n cael ei gynnwys, pe byddai'n cwblhau'r arolwg, mewn Cyfeiriadur Bwyd a Diod Cymru wedi'i gynhyrchu gan Ganolfan ZERO2FIVE y Diwydiant Bwyd.

Roedd methodoleg yr arolwg yn cynnwys dau gyfnod casglu data:

Y cyfnod cyntaf: Galwad ffôn cychwynnol i bennu gwybodaeth sylfaenol am y busnes fel manylion cyswllt, ardystiad a chategori'r cynnyrch. Yn ystod y cyfnod hwn, casglwyd data am y cwmni yr oedd yr ymatebwr yn debygol o'i wybod heb gyfeirio at ddogfennaeth bellach. Cynhaliwyd y cyfnod cyntaf gan gwmni ymchwil allanol, a gynhaliodd gyfweliadau ffôn a Rheolwyr Gyfarwyddwyr.

Yr ail gyfnod: Arolwg ar-lein neu alwad ffôn dilynol i gael data mwy penodol gan roi mwy o amser i'r ymatebwr gynllunio a chyfeirio at y ffynonellau perthnasol o wybodaeth e.e. cyfrifon y cwmni. Yn ystod yr ail gyfnod, casglwyd data busnes manylach fel trosiant, niferoedd cyflogeion a gweithgarwch allforio.

## 2.3. Maint Sampl

I sicrhau bod y canlyniadau'n cynrychioli diwydiant Bwyd a Diod Cymru, defnyddiodd FIC ZERO2FIVE ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ei chronfa ddata o gysylltiadau i'r holl weithgynhyrchwyr bwyd a diod yng Nghymru. Roedd yn hanfodol fod y data hefyd yn gynrychiadol ledled holl ranbarthau Cymru ac felly defnyddiodd y ganolfan ym Mhrifysgol Fetropolitan Caerdydd ei chanolfan bartner yng Ngholeg Llandrillo Menai i gael gwybodaeth am gwmnïau yng Ngogledd Cymru.

Yn ystod y cyfnod cyntaf, cysylltwyd â chyfanswm o 779 o weithgynhyrchwyr, cynhyrchwyr a phrosesyddion bwyd a diod o'r gronfa ddata. O'r 779 o gysylltiadau, gwrthododd 137 gymryd rhan yn yr arolwg a dywedodd 21 arall eu bod yn fodlon cymryd rhan yn y cyfnod cyntaf yn unig ac felly ni chysylltwyd â hwy yn rhan o'r ail gyfnod. Ni chafwyd ymateb i'r arolwg gan weddill y rheini y cysylltwyd â hwy. Yn ystod y cyfnod cyntaf, dychwelwyd 174 o ymatebion i gyd, a oedd yn gywerth â 22 % o gyfradd ymateb.

Cynhaliwyd yr ail gyfnod drwy gynhyrchu arolwg ar-lein (gan ddefnyddio'r arf arolwg ar-lein, SurveyMonkey) neu drwy alwad ffôn dilynol, a ddychwelodd 108 o ymatebion, a oedd yn gywerth â 14 % o gyfradd ymateb (o'r 174 o ymatebwyr o'r cyfnod cyntaf, parhaodd 108 i ail gyfnod yr arolwg).

## 2.4. Dadansoddi'r data

Cynhaliwyd yr holl ddadansoddiadau data disgrifiadol gan ddefnyddio Microsoft Excel 2010.








Nod yr arolwg oedd cyflenwi amrywiaeth o feincnodau i'r sector er mwyn mesur perfformiad yn y dyfodol.

# 3. Y Prif Ganfyddiadau

## 3.1. Gwybodaeth am y Cwmnïau

### 3.1.1. Categoreiddio Cynnyrch

Yn hanesyddol, ystyriwyd bod Cymru'n wlad sy'n bennaf yn cynhyrchu cig oen, cig eidion a chynnyrch llaeth. Fodd bynnag, y tu hwnt i gât y fferm, mae proffil y sector bwyd a diod yn cymhlethu tipyn. Roedd yr arolwg yn ceisio adnabod y categorïau cynnyrch, sy'n sbardunau allweddol i'r economi yng Nghymru. Er mwyn nodi hyn, cafodd y cynhyrchion eu cydredeg â'r 18 o gategorïau cynnyrch a nodwyd gan Safon Fyd-eang BRC ar gyfer Diogelwch Bwyd.

Gofynnwyd i bob busnes adnabod y categori BRC a oedd yn disgrifio orau ei amrywiaeth o gynnyrch. Er bod 174 o fusnesau i gyd wedi cymryd rhan yn y cyfnod cyntaf, cafwyd cyfanswm o 344 o atebion am fod cwmnïau'n cynhyrchu cynhyrchion dros nifer o gategorïau. Pobi oedd y categori mwyaf (24 %), ac yna cynnyrch llaeth (20 %) a chig coch amrwd (19 %). Olewau a brasterau oedd y categori cynnyrch lleiaf (1 %).






**Figure 1. Nifer y cwmnïau a grybwyllodd pob categori BRC yr oeddent yn perthyn iddo (*n*=174)**
DS* Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog ac felly 344 oedd cyfanswm yr ymatebion

### 3.1.2. Ardystio

Gofynnwyd i'r busnesau nodi pa ardystiad(au) a gyflawnwyd ganddynt. Cymerodd 168 o gyfranogwyr ran yn y cwestiwn hwn i gyd, gan nodi cyfanswm o 178 o ardystiadau (am fod gan rai safleoedd fwy nag un ardystiad). O'r 168 o gyfranogwyr, dywedodd 61 % nad oedd ganddynt unrhyw ardystiad, a BRC (12 %), SALSA (9 %) a Chymdeithas y Pridd (7 %) oedd y mwyaf cyffredin. Roedd gan nifer o'r busnesau (3 %) statws Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig (PGI) neu Wasanaethau Hyfforddiant Cymorth ac roedd gan 2 % ardystiadau'r Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) neu nid oeddent yn gwybod a oedd gan y cwmni unrhyw ardystiadau. O weddill yr ymatebion, roedd gan 1 % statws Enw Tarddiad Gwarchodedig (PDO) ac roedd gan lai nag 1 % ardystiad Safonau Bwyd Rhyngwladol (IFS) neu'r Ffederasiwn Bwyd Organig (OFF).




**Ffigur 2. Nifer y cwmnïau a ddywedodd fod ganddynt ardystiad (*n*= 168)**
D.S.* Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog ac felly cafwyd 178 o ymatebion i gyd







## 3.1.3. Cyfathrebu

Mae'n hanfodol cyfathrebu'r brand â'r defnyddiwr i sicrhau bod busnesau'n ffynnu mewn hinsawdd gystadleuol. Yn sgil cyflwyno amryw gyfryngau cymdeithasol, mae'r ffyrdd y gall busnesau gysylltu â'r defnyddiwr ar raddfa fyd-eang wedi datblygu ymhellach. Mae cyfryngau cymdeithasol yn fodd o ddynoli busnesau'n fwy, gan gynnig mwy o adnabyddiaeth i frand, ffyddlondeb i frand a chyfraddau sgwrs uwch i gwsmeriaid newydd. O ystyried bod rhan fwyaf y cyfryngau cymdeithasol poblogaidd yn rhad ac am ddim, gellir ystyried eu bod ymhlith y prif arfau marchnata. Drwy bennu nifer y busnesau sy'n defnyddio gwefan neu gyfryngau cymdeithasol, gellid helpu i nodi unrhyw botensial i ddatblygu'r farchnad.

Soniodd mwyafrif (90 % ) y cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru eu bod yn berchen ar wefan. Roedd gan fwy na thraean o'r cwmnïau gyfrifon Facebook (38 % ) neu Twitter (36 % ). Dywedodd 2 % eu bod wedi defnyddio cyfryngau cymdeithasol eraill ac nid oedd 10 % yn defnyddio dim o gwbl.




**Ffigur 3. Y ganran o gwmnïau sy'n berchen ar wefan neu gyfrifon cyfryngau cymdeithasol (*n*= 177)**





Mae arloesi mewn effeithlonrwydd gweithredol, datblygu marchnata a chynhyrchion newydd yn gydrannau hanfodol ar gyfer twf yn y sector.

# 3.2. Gwybodaeth Fasnachu

## 3.2.1. Trosiant

Cafwyd trosiant blynyddol yn ystod cyfnod 2010-2014 ar gyfer 108 o fusnesau. Dewisodd mwyafrif y busnesau restru'r wybodaeth hon yn gyfrinachol. Dywedodd rhai cwmnïau hefyd nad oeddent eto wedi gorffen eu cyfrifon ar gyfer 2014 a dywedodd lleiafrif bychan hefyd nad oeddent wedi gorffen eu cyfrifon ar gyfer 2013. Cafodd yr ymatebion eu grwpio'n bedwar categori yn ôl diffiniadau meintiau busnes y Comisiwn Ewropeaidd.

Yn ystod 2014, nodwyd bod 98 % o fusnesau'n ficrofusnesau'n neu BBaCh ar sail eu trosiant ac, yn ystod 2010-2014, gellir gweld gostyngiad yn nifer y microfusnesau a chynnydd yn nifer y busnesau bach. Gallai hyn fod yn arwydd o dwf mewn trosiant i'r diwydiant. Gwelwyd cynnydd yn nifer y cwmnïau mawr yn ystod cyfnod 2013-2014.

| Categori busnes yn ôl trosiant* | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| | (n=45) | (n=44) | (n=47) | (n=47) | (n=43) |
| €0-2 miliwn (Micro) | 82 % | 84 % | 83 % | 87 % | 77 % |
| €2-10 miliwn (Bach) | 11 % | 9 % | 11 % | 6.5 % | 14 % |
| €10-50 miliwn (Canolig) | 7 % | 7 % | 6 % | 6.5 % | 7 % |
| >€50 miliwn (Mawr) | 0 % | 0 % | 0 % | 0 % | 2 % |

*Wedi'u categoreiddio yn unol â diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o faint busnes

**Tabl 1. Nifer canrannol y busnesau sy'n perthyn i bob band maint yn ôl eu trosiant blynyddol, 2010-2014**

### 3.2.2. Niferoedd Cyflogeion

Cafwyd gwybod niferoedd y cyflogeion yng nghyfnod 2010-2014 ar gyfer 108 o fusnesau. Fodd bynnag, byddai hyn yn amrywio o'r naill flwyddyn i'r llall, oherwydd ffurfio a chau rhai busnesau a phenderfynodd nifer o fusnesau gadw'r wybodaeth hon yn gyfrinachol. Cafodd yr ymatebion eu grwpio'n bedwar categori yn seiliedig ar ddiffiniadau'r Comisiwn Ewropeaidd o feintiau busnes.

Canfuwyd, yn ystod 2014, fod 99 % o'r busnesau a ymatebodd wedi'u dosbarthu'n ficrofusnesau i BBaCh ar sail niferoedd cyflogeion. Yn ystod y cyfnod, cynyddodd nifer y busnesau bach a chanolig a gostyngodd nifer y microfusnesau. Gallai'r canfyddiad hwn nodi bod nifer y cyflogeion ym mhob busnes yn tyfu'n gyflymach na'r trosiant, ond rhaid pwysleisio y gallai ffactorau eraill hefyd ddylanwadu ar hyn fel gwahaniaeth mewn maint sampl. Nid oedd unrhyw dwf yn nifer y cwmnïau mawr.

| Categori busnes yn ôl niferoedd cyflogeion* | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|---|
| | (n=66) | (n=66) | (n=65) | (n=69) | (n=70) |
| 0-10 (Micro) | 79 % | 76 % | 77 % | 73 % | 70 % |
| 11-50 (Bach) | 15 % | 17 % | 20 % | 20 % | 20 % |
| 51-250 (Canolig) | 5 % | 6 % | 1.5 % | 6 % | 9 % |
| >250 (Mawr) | 1 % | 1 % | 1.5 % | 1 % | 1 % |


*Wedi'u categoreiddio yn ôl diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o faint busnes

**Tabl 2. Nifer canrannol y busnesau sy'n perthyn i bob band maint yn ôl nifer y cyflogeion a gyflogir ganddynt, 2010-2014**

### 3.2.3. Llwybr Cyflenwi

Nodwyd mai'r sianeli masnachu a ddefnyddid gan yr holl fusnesau oedd cyfanwerthu, manwerthu (mawr), manwerthu (arall) neu wasanaeth bwyd. Roedd manwerthu (mawr) yn cwmpasu prif archfarchnadoedd y DU, sef Tesco, Asda, Sainsbury's, Morrisons, Waitrose, Co-operative, Aldi a Lidl. Roedd manwerthu (arall) yn cynnwys yr holl fanwerthwyr eraill a werthai'n uniongyrchol i'r defnyddiwr. Diffinnir gwasanaeth bwyd fel y diwydiant sy'n berthnasol i wneud, cludo neu werthu bwydydd wedi'u paratoi i fwytai, gwestai, ysgolion, caffis ac unrhyw wasanaethau arlwyo eraill.

Nodwyd mai manwerthu (arall) oedd y sianel fwyaf poblogaidd, a 77 % o ymatebwyr yn cyflenwi manwerthwyr eraill. Roedd 48 % o fusnesau'n cyflenwi cyfanwerthu, a 50 % pellach yn cyflenwi gwasanaethau bwyd. Canfuwyd mai manwerthu (mawr) oedd y sianel leiaf poblogaidd, a dim ond 21 % o fusnesau'n cyflenwi'r manwerthwyr mwy, sy'n rhannol yn adlewyrchu proffil yr ymatebwyr.




**Ffigur 4. Y ganran o gwmnïau sy'n cyflenwi cyfanwerthu, manwerthu (mawr), manwerthu (arall) a gwasanaeth bwyd (*n*= 155)**
D.S.* Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog ac felly 304 oedd cyfanswm yr ymatebion






### 3.2.4. Cyflenwi'r Sector Cyhoeddus

Un o'r agweddau mwyaf sensitif ar ddatblygu'r gadwyn gyflenwi yw caffael a chyflenwi'r sector cyhoeddus. Arbedion maint, y gallu i gyflenwi ac ardystio diogelwch bwyd; dyna ychydig yn unig o'r ffactorau sy'n dylanwadu ar gaffael bwyd yn y sector cyhoeddus. Casglwyd cant o ymatebion ac nid oedd mwyafrif y busnesau, sef 63 %, yn cyflenwi'r sector cyhoeddus. Roedd 32 o ymatebion (o 100 o ymatebion) i'r cwestiwn ynghylch defnyddio trydydd parti. O'r 32 o ymatebion, mae 37 % yn cyflenwi'r sector cyhoeddus gan ddefnyddio cwmni trydydd parti. Cafwyd 78 o ymatebion am 'uchelgeisiau i gyflenwi'r sector cyhoeddus'. Er bod 64 % o'r ymatebwyr wedi dweud y byddai ganddynt ddiddordeb mewn cyflenwi'r sector cyhoeddus yn y dyfodol, dywedodd ychydig llai na chwarter (23 %) nad oedd diddordeb ganddynt a dywedodd 13 % nad oeddent yn gwybod.

I ddeall pa rwystrau a wynebir wrth gyflenwi'r sector cyhoeddus, holwyd barn pob cyfranogwr am y rhwystrau rhag cyflenwi'r sector cyhoeddus. Er bod 70 o gyfranogwyr i gyd wedi dewis ateb y cwestiwn hwn, roeddent yn cael dewis atebion lluosog a chasglwyd 75 o ymatebion i gyd. Nodwyd mai pris oedd y rhwystr mwyaf rhag cyflenwi'r sector cyhoeddus, gyda 47 % o ymatebion. Ystyriwyd mai diffyg gwybodaeth oedd yr ail rwystr mwyaf, gyda 27 % o ymatebion. Mae'n bwysig nodi bod rhai cyfranogwyr wedi sôn am ddiffyg gwybodaeth am y broses dendro a chyfleoedd cyflenwi. Ystyriwyd mai rhwystrau technegol oedd y trydydd rhwystr mwyaf, gyda 10 % o ymatebion. Enwodd 7 % o'r ymatebwyr 'Biwrocratiaeth' yn rhwystr, ynghyd â disgrifiadau digymell fel 'aneffeithlonrwydd' a 'mân reolau'. Roeddent hefyd yn credu bod cyrff sector cyhoeddus yn tueddu i ddefnyddio cyflenwyr o'r tu allan i Gymru. Dywedodd 3 % o'r ymatebwyr fod cludiant yn rhwystr.





**Ffigur 5. Rhwystrau amlwg rhag cyflenwi'r sector cyhoeddus (*n*= 70)**

### 3.2.5. Logisteg

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rhoddwyd cryn sylw i effaith cynhyrchu a dosbarthu bwyd a diod ar yr amgylchedd a bydd hwn yn parhau'n bwynt trafod perthnasol hyd y gellir ei ragweld.

Er mwyn deall trefniant logistaidd pob busnes, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi ym mha ddulliau y byddent yn dosbarthu eu cynhyrchion. Casglwyd 94 o ymatebion i gyd. Y dull mwyaf cyffredin a ddefnyddiwyd i ddosbarthu cynhyrchion oedd cludwr contract. Roedd contractau'n cynnwys gwasanaethau cludwr fel y Post Brenhinol (roedd 47 % o'r ymatebwyr yn defnyddio'r gwasanaethau hyn). Roedd tua chwarter o fusnesau, sef 26.5 %, yn defnyddio eu dulliau dosbarthu eu hunain ac roedd yr un gyfran, 26.5 %, o gwmnïau'n defnyddio'r ddau ddull dosbarthu.




**Ffigur 6. Y dulliau y dywedwyd bod cwmnïau'n dosbarthu eu cynnyrch (*n*= 94)**

### 3.2.6. Perchenogaeth


Er mwyn deall sefydlogrwydd cwmnïau bwyd a diod yng Nghymru, mae'n bwysig deall proffil perchenogaeth, newidiadau perchenogaeth a'r rhesymau dros newid. Mae hyn yn helpu i adnabod tueddiadau, a allai effeithio ar niferoedd cyflogeion yn y sector.

Gofynnwyd i bob ymatebwr a oedd y busnes wedi newid perchenogaeth neu safle yn ystod y tair blynedd ddiwethaf. Atebodd 94 % 'naddo' i'r cwestiwn hwn. Roedd 6 % o'r ymatebwyr wedi newid perchenogaeth neu safle yn ystod y tair blynedd ddiwethaf.

## 3.2.7. Allforio

Er mwyn dirnad gweithgarwch allforio'r diwydiant, gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oeddent yn allforio cynhyrchion y tu allan i'r DU ar hyn o bryd. Mae dros chwarter o'r ymatebwyr yn allforio y tu allan i'r DU ar hyn o bryd (27 % ), a dywedodd gweddill yr ymatebwyr nad oeddent yn allforio (73 % ).


Ar ôl pennu pa fusnesau a oedd yn allforio y tu allan i'r DU, gofynnwyd iddynt i ba ranbarthau maen nhw'n allforio. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (89 % ) eu bod yn allforio i Ewrop ar hyn o bryd. Yr ail gyrchfan allforio a grybwyllwyd fwyaf oedd Gogledd America, (37 % ), ac yna Asia'n drydydd agos (30 % ). Y cyfandiroedd yr allforiwyd iddynt leiaf oedd Ynysoedd y De (15 % ), America Ladin (11 % ) ac Affrica (7 % ).




**Ffigur 7. Y ganran o gwmnïau sy'n sôn eu bod yn allforio cynhyrchion i bob rhanbarth (*n*= 27)**



Nododd y busnesau hefyd i ble y maent yn gobeithio allforio yn y dyfodol. Ymatebodd 45 o fusnesau i gyd. Fodd bynnag, roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog a chyfanswm yr ymatebion oedd 113. Dywedodd bron tri chwarter (73 % ) yr hoffent allforio i Ewrop. Asia oedd y dewis mwyaf poblogaidd nesaf (53 % ) ac yna Gogledd America (47 % ) ac Ynysoedd y De (38 % ). Dewiswyd America Ladin gan 29 % o gyfranogwyr yn gyrchfan allforio a dywedodd 11 % yr hoffent allforio i Affrica.




**Ffigur 8. Y ganran o fusnesau a hoffai allforio i bob rhanbarth (*n*= 45)**
D.S.* Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog ac felly cyfanswm yr ymatebion oedd 113







Mae perfformiad gweithredol yn effeithio’n uniongyrchol ar elw cwmni, ond hefyd ar ddefnydd ynni a rheoli amgylcheddol yn y sefydliad.


# 3.3. Perfformiad Gweithredol

## 3.3.1. Cyrchu Deunydd Crai

Er mwyn hwyluso datblygiad masnach yng Nghymru, mae angen inni ddeall ymhle mae busnesau bwyd yn cyrchu deunyddiau crai.

Holwyd yr ymatebwyr a oeddent yn cyrchu deunyddiau crai y tu allan i'r DU. Atebodd 97 o fusnesau'r cwestiwn hwn i gyd. Dywedodd 54 % o fusnesau eu bod yn cyrchu deunyddiau crai o'r tu allan i'r DU a dywedodd 44 % nad ydynt yn cyrchu deunyddiau crai o'r tu allan i'r DU. Ni wyddai 2 % o'r busnesau o ble y byddent yn cyrchu eu deunyddiau crai.

O'r rheini a ddywedodd eu bod yn cyrchu deunyddiau crai o'r tu allan i'r DU, gofynasom wedyn iddynt nodi o ba gyfandir y byddent yn cyrchu deunyddiau. Er bod 52 o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cyrchu deunyddiau crai o'r tu allan i'r DU, roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu mwy nag un ateb am fod rhai busnesau'n cyrchu eu deunyddiau o fwy nag un lle. Roedd 83 % yn cyrchu deunyddiau crai o Ewrop. Yr ail leoliad mwyaf cyffredin ar gyfer cyrchu deunyddiau crai oedd Asia, (27 %). Y trydydd man mwyaf poblogaidd oedd Gogledd America (13 %), ac yna'n agos wedyn Ynysoedd y De, (12 %), America Ladin, (10 %) ac Affrica, (8 %).





**Ffigur 9. Y ganran o gwmnïau sy'n sôn eu bod yn cyrchu deunyddiau crai o bob rhanbarth (*n*= 52)**
D.S.* Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu atebion lluosog ac felly 79 oedd cyfanswm yr ymatebion

### 3.3.2. Gallu

Sonnir yn aml am ddiffyg gallu yn y sector yn rhwystro masnach. I ddeall sefyllfa'r diwydiant, o ran gallu gweithredu, holwyd pob busnes a oedd yn credu ei fod yn gweithredu hyd eithaf ei allu. Cyfanswm yr ymatebion a gasglwyd ar gyfer y cwestiwn hwn oedd 101. Dywedodd tua thri chwarter, sef 78 %, nad oeddent yn gweithredu hyd eithaf eu gallu. Dywedodd y lleiafrif, 22 %, eu bod yn gweithredu hyd eithaf eu gallu.

Yna, holwyd y rheini a ddywedodd nad oeddent yn gweithredu hyd eithaf eu gallu i ba ganran o allu llwyr yr oeddent yn gweithredu ar hyn o bryd. Bu 66 o fusnesau i gyd yn manylu ar eu gallu canrannol cyfredol, ac felly cafwyd 88 o ymatebion i gyd, gan gynnwys y rheini a ddywedodd eu bod yn gweithredu hyd eithaf eu gallu. Dywedodd tua 14 % o fusnesau eu bod yn credu eu bod yn gweithredu yn chwartel uchaf eu llwyr botensial. Y dewis mwyaf cyffredin oedd y trydydd chwartel, rhwng 51 a 75 %, gyda thua 33 % o fusnesau. Dywedodd tua chwarter o'r busnesau (24 %) eu bod yn gweithredu hyd 26-50 % yn unig o'u gallu. Credai canran fechan (4 %) eu bod yn gweithredu yn y chwartel isaf.





**Ffigur 10. Y ganran o'u gallu y cred y busnesau eu bod yn gweithredu iddi (*n*= 66)**

### 3.3.3. Nifer y Cynhyrchion

Mae gwaith gan Ganolfannau Bwyd FIW yn aml wedi datgelu aneffeithlonrwydd prosesu sy'n cael ei greu gan ystod amrywiol o gynhyrchion. Gall amrywiaeth fawr o gynhyrchion arwain at rediadau cynhyrchu byrion, gan lanhau'r llinell brosesu rhwng y rhediadau olynol.

I ganfod sefyllfa gyfredol y busnes, gofynnwyd i'r ymatebwyr sawl cynnyrch sydd ganddynt ar hyn o bryd yn y farchnadfa. Casglwyd 93 o ymatebion i gyd. Roedd gan y rhan fwyaf o fusnesau (62.4 %) 0-25 o gynhyrchion yn y farchnadfa. Dywedodd tua 19.4 % fod ganddynt 26-50 o gynhyrchion yn y farchnadfa. Roedd gan ganran fechan fwy na 50 o gynhyrchion yn y farchnadfa, dywedodd 3.2 % fod ganddynt 51-75 o gynhyrchion, a 5.4 % fod ganddynt 76-100 o gynhyrchion. Roedd gan un y cant 101-125 o gynhyrchion ac roedd 126-150 o gynhyrchion gan 2.25 %. Roedd gan tua 2.15 % o fusnesau naill ai 151-175, 176-200 neu >200 o gynhyrchion ar gael yn y farchnadfa fesul un.




**Ffigur 11. Nifer y cynhyrchion sydd gan bob busnes, mae'n debyg, yn y farchnadfa (*n*= 93)**

### 3.3.4. Costiadau


Caiff cynnyrch ei gostio fel arfer cyn ei lansio. Fodd bynnag, yn sgil cyflymder y sector gweithgynhyrchu ac ansefydlogrwydd prisiau deunydd crai, gall costiadau fod yn anghywir yn fuan, ac mae hyn yn arwain at lai o reolaeth ar elw/colledion a gynhyrchir yn ystod y broses weithgynhyrchu. Gofynnwyd i'r cyfranogwyr a oedd ganddynt gostiadau ar gyfer eu holl gynhyrchion ac ymatebodd 97 i'r cwestiwn hwn. Dywedodd ychydig dros dri chwarter, 77.3 %, fod ganddynt gostiadau i'w cynhyrchion i gyd, a dywedodd 12.3 % nad oedd costiadau ganddynt. Dywedodd y gweddill, sef 10.3 %, nad oeddent yn gwybod a oedd ganddynt gostiadau ai peidio.

Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr a oedd y costiadau wedi'u hadnewyddu yn ystod y 12 mis diwethaf. Cafwyd 80 o ymatebion i gyd i'r cwestiwn hwn a dywedodd llai na thri chwarter, sef 72.5 %, fod eu costiadau wedi'u hadnewyddu. Dywedodd y 27.5 % arall nad oedd eu costiadau wedi'u hadnewyddu.

### 3.3.5. Datblygu Cynnyrch Newydd

Yn y sector bwyd a diod, mae cysylltiad annatod rhwng twf busnes a datblygu cynnyrch newydd. Mae gweithgarwch yn y ddisgyblaeth hon yn ddangosydd da o reoli arloesedd yn y busnes. Er mwyn dirnad pa mor arloesol yw'r busnes, holwyd y cwmnïau sawl cynnyrch yr oeddent wedi'i ddatblygu, a gyrhaeddodd y farchnadfa yn y flwyddyn ariannol flaenorol. Cafwyd 87 o ymatebion i gyd, a dywedodd 82 o'r rhain (sef 94 % ) eu bod wedi lansio 0-10 o gynhyrchion yn ystod y flwyddyn flaenorol. Dywedodd 2 % o gyfranogwyr eu bod wedi lansio 11-20 o gynhyrchion ac 1 % yr un o gyfranogwyr ar gyfer lansio 21-30, 31-40 a 61-70 o gynhyrchion. Ni ddywedodd yr un cyfranogwr ei fod wedi rhyddhau 41-50 na 51-60 o gynhyrchion yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol.

Gofynnwyd wedyn i'r ymatebwyr sawl cynnyrch a oedd ar y gweill ar hyn o bryd. Casglwyd 88 o ymatebion i gyd i'r cwestiwn hwn. Roedd gan ychydig dros hanner (53.4 % ) y busnesau 1-5 o gynhyrchion ar y gweill. Dywedodd 28.4 % o'r busnesau nad oedd unrhyw gynhyrchion ganddynt ar y gweill. Roedd 6-10 o gynhyrchion ar y gweill gan ryw 7.9 % , ac yna roedd 3.4 % yn datblygu 11-15 o gynhyrchion a 3.4 % yn datblygu 16-20 o gynhyrchion. Gwelwyd y canrannau isaf ar gyfer nifer mwyaf y cynhyrchion, gydag 1.1 % o'r busnesau'n cynhyrchu 21-25, 26-30 neu 36-40 o gynhyrchion. Nid oedd gan yr un cwmni 31-35 o gynhyrchion ar y gweill.




**Ffigur 12. Nifer y cynhyrchion y dywedodd pob busnes fod ganddo ar y gweill ar hyn o bryd (*n*= 88)**

### 3.3.6. Ail-frandio

Profwyd bod datblygu brand a dylunio deunydd pacio yn ffactor dynamig yn llwyddiant cynhyrchion bwyd a diod ac, o ganlyniad, busnesau bwyd a diod. Mae cwmnïau llwyddiannus yn mynd ati’n rheolaidd i ddiweddaru delwedd y brand a’r deunydd pacio cysylltiedig.

O’r 88 o ymatebion, nid oedd tua dau o bob tri (65 % ) wedi ail-frandio yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf ac nid oeddent yn bwriadu ail-frandio yn y dyfodol agos. Am fod brandio’n elfen mor bwysig o fusnesau bwyd a diod llwyddiannus, mae’n bwysig nad yw busnesau’n llaesu dwylo ac yn gadael i’w brand golli perthnasedd.

Er bod ail-frandio’n gallu bod yn ddrud, gellid ei ystyried yn ffactor wrth werthuso pa mor arloesol yw cwmni. Mae 35 % o’r cwmnïau wedi ail-frandio yn ystod y tair blynedd ddiwethaf neu’n bwriadu gwneud hynny yn y dyfodol.



# 4. Cyfeiriadau

Y Comisiwn Ewropeaidd. (2014, Rhagfyr 5). *What is a SME?*
Wedi'i adalw Ionawr 2015, o'r Comisiwn Ewropeaidd:
**ec.europa.eu/growth/smes/business-friendly-environment/sme-definition/index_en.htm**

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2014). *UK Business: Activity, Size and Location.*

Y Ffederasiwn Bwyd a Diod. (2014). *The UK Food and Drink Industry:*
A 20/20 Vision for Growth: **www.fdf.org.uk/2020_growth_vision.aspx**

Llywodraeth Cymru. (2014). Tuag at Dwf Cynaliadwy:
Cynllun Gweithredu ar gyfer y Diwydiant Bwyd a Diod 2014-2020:
**gov.wales/docs/drah/publications/140611actionplanforfoodanddrinken.pdf**

